

Y Synhwyrâu

Darlleniad 1: Salm 139

Darlleniad 2: 1 Corinthiaid 12: 12-31

Deuwn atat yn awr, ein Duw, gan gredu mai ti a greodd y byd ac sy'n llywodraethu arno. Gallwn weddio gyda'r Salmydd:

'Ti a greodd fy ymysgaroedd a'm llunio yng nghroth fy mam. Clodforwn di, oherwydd yr wyt yn ofnadwy a rhyfeddol, ac mae dy weithredodd yn rhyfeddol. Yr wyt yn fy adnabod mor dda.'

Ti, ein Creawdwr a'n lluniwr, a roddodd inni ein synhwyrâu i'w defnyddio'n bennaf er clod a gogoniant i'th enw, ac yna er ein lles ein hunain a'n cyd-ddyn. Sylweddolwn mor werthfawr yw'r gallu i glywed, gweld, cyffwrdd, aroglu a blasu.

O! Arglwydd ein Duw, rydym yn euog o beidio â sylweddoli gwir werth y synhwyrâu. Rydym yn defnyddio pob un ohonynt bob dydd a dylem gofio diolch i ti amdanynt bob dydd. Rydym yn mwynhau clywed gwahanol bethau ac mae'r gallu gennym i wahaniaethu rhwng gwahanol fathau o sŵn, rhwng un llais a'r llall, gwahanol ganeuon yr adar a sŵn yr anifeiliaid, yr afon a'r môr, a llu o bethau eraill. Rydym yn mwynhau gwrando ar wahanol fathau o ganu a cherddoriaeth. Rhaid cyfaddef ger dy fron, O! Arglwydd, fod yna hefyd lawer o bethau nad ydym yn hoffi eu clywed - fel sŵn y bwled a'r bom, poen a dioddefaint, gofid a galar. Mae nifer fawr o bobl y byd, O! Dduw, yn byw yn sŵn y pethau hyn yn ddyddiol. Gweddïwn yn daer trostynt y bydd eu sefyllfa'n newid ac y daw heddwch i dawelu sŵn y trais. Gweddïwn hefyd dros y rhai sydd heb y gallu i glywed, wedi eu geni'n fyddar neu wedi colli eu clyw trwy ddamwain neu afiechyd. Nid ydynt yn gallu mwynhau'r pethau yr ydym ni sy'n clywed yn eu mwynhau.

Gweddïwn yn yr un modd dros y rhai sy'n ddall, y rhai sy'n methu

gweld prydfferthwch dy greadigaeth, y gwahanol liwiau - fel yr haul yn dawnsio ar y dŵr, y sêr yn disgleirio yn y nen, y golygfeydd rhyfeddol a grewyd gennynt. Er ein bod yn cael llawer o bleser wrth ddefnyddio ein llygaid, cawn brofi gofid a thristwch hefyd wrth weld poen tloedi a newyn, erchylltra rhyfel, dinistr a thrychineb, a gweld poen anobaith ar wynebau pobl. Wrth weld y pethau hyn, ysgoga ni, fel eglwysi ac unigolion, i wneud yr hyn a allwn i gynorthwyo'r difreintiedig. Diolchwn i ti am y gallu i gyffwrdd gwahanol bethau a sylweddoli'r gwahaniaeth rhwng y llyfn a'r cwrs, y caled a'r meddal, y poeth a'r oer. O! Arglwydd, mae'r ffordd yr ydym yn cyffwrdd yn gallu bod mor wahanol - gallwn gyffwrdd mewn cariad neu mewn casineb, mewn hapusrwydd neu dristwch, yn dyner neu'n llawdrwm.

Rydym yn ddiolchgar i ti am y gynhafiaeth yr wyt yn ei pharatoi ar ein cyfer yn feunyddiol. Diolchwn am y gallu i gael blas rhyfeddol ar dy roddion hael. Gwyddost yn dy ddoethineb nad ydym bob un wedi cael ein gwneud yr un fath. Mae rhai ohonom yn hoffi pethau melys, eraill yn hoffi pethau sawrus, eraill wedyn yn hoffi pethau sur neu hallt. Diolchwn i ti, O! Dad, am baratoi ar gyfer pawb ohonom fel bod digon i'w gael at ddant pawb. Gweddiwn dros y rhai sydd wedi colli blas ar fwyd oherwydd afiechyd neu boen. Boed i'th law dyner orffwys arnynt i'w hadfer er clod i'th enw.

Diolchwn i ti, O! Dad, am y gallu i arogl. Cawn brofi aroglau hyfryd y wlad - y cae gwair, y blodau a'r planhigion; aroglau glan y môr - y gwymon a'r pysgod. Rydym yn mwynhau arogl gwahanol fwydydd wrth eu coginio. Gwyddom hefyd fel y mae arogl yn rhybuddio dyn o berygl - fel y mae arogl mwg, er enghraifft, yn arwydd o dân.

Rhoddaist ti bwrpas i bob un o'r synhwyrau. Rydym yn wir ddiolchgar i ti amdanynt. Amen.

Brian Wright